Estyn

# Arweiniad i Arolygwyr

## Beth rydym ni'n arolygu

Dysgu oedolion yn y gymuned
Ar gyfer arolygiadau peilot o 2022



estyn.llyw.cymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|

**Cyflwyniad i Beth rydym yn ei arolygu** **1**

Ynglŷn â'r bartneriaeth 2
Trosolwg 2
Argymhellion 2
Beth sy'n digwydd nesaf? 3
Sail dystiolaeth yr arolygiad 3

**Meysydd arolygu** **4**

1 Dysgu 15
2 Lles ac agweddau at ddysgu 17
3 Addysgu a phrofiadau dysgu 18
4 Gofal, cymorth ac arweiniad 21
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth 22

Sail dystiolaeth yr arolygiad 25
Ffocws thematig 25

## Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r pum maes arolygu mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'n esbonio 'Beth rydym yn ei arolygu'. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen 'Sut rydym yn arolygu', sy'n amlinellu ein hymagwedd at arolygu yn sgil pandemig COVID-19.

Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu, yn cynnwys yr enwebai. Gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu hefyd. Mae llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu, sef 'Sut rydym yn arolygu'.

Mae'r pum maes arolygu wedi'u hamlinellu isod.

**Meysydd arolygu 1 – Dysgu**

1.1 Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**

2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**

3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y ddarpariaeth
3.2 Addysgu, hyfforddi ac asesu

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**

4.1 Datblygiad personol
4.2 Diogelu

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**

5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol

### Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn llunio gwerthusiad cadarn a thrylwyr o ddarpariaeth y bartneriaeth a'i heffaith ar ddysgu a lles dysgwyr.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir o ran y gofynion adrodd ym mhob maes arolygu, fel y dangosir yn y llawlyfr hwn. Fodd bynnag, gallai'r hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu fod yn wahanol, yn dibynnu ar arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ganfod ym mhob partneriaeth. Gallai arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau

dim ond ble mae cryfderau neu wendidau penodol. Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol mewn un maes arolygu neu fwy, bydd angen gweithgarwch dilynol ar y bartneriaeth, fel arfer. Mae mwy o arweiniad ar natur gweithgarwch dilynol ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r bartneriaeth

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am y bartneriaeth; ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth. Fel arfer, mae'r arolygydd cofnodol yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r enwebai ar gyfer y bartneriaeth yn ystod yr arolygiad ac yn ystod gwiriad ffeithiol y bartneriaeth o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Os oes anghytuno am gynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad y bartneriaeth
- y math o raglenni hyfforddi a gyflwynir, a'u lefel
- nifer y dysgwyr mewn hyfforddiant
- aelodau'r consortiwm ac isgontractwyr
- unrhyw newidiadau pwysig ers yr arolygiad diwethaf
- mis a blwyddyn arolygiad blaenorol y bartneriaeth
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill

## Trosolwg

Dylai'r adran hon o'r adroddiad:

- gynnwys trosolwg byr o'r prif ganfyddiadau (200-300 gair), yn amlinellu'r prif gryfderau ac unrhyw wendidau pwysig y mae angen eu gwella
- creu'r cyswllt rhwng deilliannau dysgwyr, ansawdd y ddarpariaeth ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth
- bod yn gyson â'r canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad

## Argymhellion

Dylai'r argymhellion:

- gysylltu'n agos â phrif feysydd gwerthusiad yr arweiniad arolygu, gyda'r argymhellion pwysicaf yn cael eu hadlewyrchu yn y trosolwg
- rhoi syniad clir a phenodol i'r bartneriaeth o'r maes / meysydd y mae angen ei wella / eu gwella
- helpu'r bartneriaeth i ddeall yn glir beth y dylent ei wneud er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol
- cael eu hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth, nid yn nhrefn yr arweiniad

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr adran 'Beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r bartneriaeth ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Dylai ddangos enghreifftiau o unrhyw astudiaethau achos arfer ddiddorol neu arloesol yr ydym wedi gwahodd arweinwyr i'w rhannu.

Bydd yr adran yn esbonio p'un a oes angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol gan Estyn ar y bartneriaeth. Bydd y trosolwg yn rhoi esboniad bras o'r rhesymau dros weithgarwch dilynol.

## Sail dystiolaeth yr arolygiad

Bydd arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr bod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiodd arolygwyr, yn ogystal ag ystod y gweithgareddau a wnaethant yn ystod eu hymweliad.

# Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu, a'r hyn y mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un ohonynt.

Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo 1 – 5, ond maent yr un mor bwysig â'i gilydd. O fewn pob maes arolygu, ni fydd yr adroddiad bob amser yn cwmpasu'r agweddau yn y drefn y maent yn ymddangos yn y llawlyfr hwn. Gallai arolygwyr ddewis rhoi'r agweddau mewn trefn wahanol er mwyn adlewyrchu eu canfyddiadau. Er enghraifft, ym Maes Arolygu 3 – Addysgu a phrofiadau dysgu, gallai arolygwyr ysgrifennu am addysgu cyn profiadau dysgu a darpariaeth os yw hyn yn gwneud canfyddiadau'r tîm yn gliriach, neu gallent gyfuno elfennau o addysgu a darpariaeth i esbonio eu canfyddiadau, lle bo'n briodol.

Bydd yr adroddiad ar bob maes arolygu fel arfer tua 500 i 700 o eiriau.

Mae arweiniad atodol ar arolygu agweddau amrywiol ar waith partneriaeth ar ein gwefan: www.estyn.gov.wales/inspection/supplementary-guidance.

## 1 Dysgu

### 1.1 Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau

Dylai arolygwyr werthuso'r safonau a gyrhaeddir gan ddysgwyr yn gyffredinol ar gyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn cyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a Saesneg fel ail iaith, a chyrsiau eraill sy'n helpu dysgwyr i gymhwyso a datblygu'r medrau hyn. Dylai arolygwyr farnu p'un a yw'r rhain yn briodol i alluoedd dysgwyr. Dylai arolygwyr gydnabod cynnydd dysgwyr, yn enwedig eu cynnydd o'u mannau cychwyn unigol tuag at gyflawni eu cyrsiau.

Dylid seilio gwerthusiad arolygwyr o gyflawniad a chynnydd dysgwyr o'u mannau cychwyn ar arsylwadau sesiynau, asesu a datblygu medrau, craffu ar waith dysgwyr (yn cynnwys gwaith wedi'i greu yn ddigidol) a thrafodaethau gyda dysgwyr. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof, yn datblygu medrau meddwl, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, a pha mor dda y maent yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd.

Dylai arolygwyr ystyried, yn benodol, pa mor dda y mae cyrsiau wedi paratoi dysgwyr i gyflawni eu nodau personol a gwella eu cyflogadwyedd.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd dros gyfnod, a'u cyrchfannau pan fyddant yn gadael y ddarpariaeth. Bydd arolygwyr yn defnyddio gwybodaeth y darparwr am ddilyniant a chyrchfannau, a'u tystiolaeth eu hunain o arsylwi sesiynau, trafodaethau gyda dysgwyr, craffu ar waith ysgrifenedig ac ymarferol a dogfennau perthnasol eraill, fel cynlluniau dysgu unigol.

Dylai arolygwyr werthuso cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr ar wahanol lefelau, dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, y rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol a dysgwyr nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried p'un a yw grwpiau penodol o ddysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent o gymharu â'u mannau cychwyn a'u gallu. Er

enghraifft, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr â medrau mwy datblygedig yn cyflawni, a'r graddau y mae'r gwaith y maent yn ymgymryd ag ef yn eu herio'n llawn i gyflawni cystal ag y gallent.

Wrth werthuso medrau, dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a medrau Saesneg fel ail iaith o'u mannau cychwyn cychwynnol. Dylai arolygwyr ystyried llwybrau dilyniant dysgwyr, cynlluniau dysgu unigol a datblygu hyder dysgwyr i allu cymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau personol a gwaith.

Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar safonau dysgwyr ym mhob un o fedrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu (yn Gymraeg / Saesneg), medrau rhifedd a medrau digidol a Saesneg fel ail iaith.

Dylai arolygwyr farnu safonau mewn medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o arsylwadau dysgwyr mewn sesiynau, craffu ar waith dysgwyr a thrafodaethau gyda dysgwyr. Bydd arsylwi dysgwyr yn ofalus mewn sesiynau a siarad â dysgwyr yn darparu tystiolaeth o'u medrau siarad a gwrando, eu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol, a'u gallu i feddwl. Bydd craffu ar waith yn darparu tystiolaeth o ba mor dda y gall dysgwyr ysgrifennu'n glir a darllen er mwyn deall, pa mor dda y gallant ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol o ystyried eu mannau cychwyn cychwynnol. Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae medrau cyfathrebu a medrau meddwl ar lefel uwch dysgwyr yn cefnogi neu'n rhwystro eu cynnydd, a'u rhyngweithio â dysgwyr ac athrawon eraill.

Dylai arolygwyr ystyried safonau dysgwyr yn y Gymraeg. Dylent ystyried y cynnydd a wna dysgwyr o'u mannau cychwyn o ran datblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg yng nghyd-destun eu cyrsiau (yn enwedig ar gyfer meysydd blaenoriaeth allweddol, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru), a sut maent yn datblygu medrau yn Gymraeg ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru yn y dyfodol, ac i'w defnyddio yn eu cymunedau a'u bywydau bob dydd.

Er y dylai arolygwyr ystyried ystod eang o wybodaeth am safonau a chynnydd dysgwyr, dylent fel arfer ond adrodd ar ddata ar berfformiad hanesyddol ble caiff y deilliannau eu casglu'n genedlaethol a'u gwirio'n allanol.

Mae absenoldeb data deilliannau cymharol dysgwyr ar gyfer 2019 -2020, 2020-2021 a 2021-2022 yn golygu na fydd arolygwyr yn gallu nodi tueddiadau mewn data ar ddeilliannau dysgwyr mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Dylai arolygwyr seilio eu gwerthusiad o safonau dysgwyr a'u cynnydd mewn dysgu ar eu tystiolaeth eu hunain o arsylwi sesiynau, trafodaethau gyda dysgwyr a chraffu ar waith ysgrifenedig, ymarferol a digidol. Byddant yn ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio'i gwybodaeth ei hun am asesiadau a deilliannau i fonitro a chefnogi cynnydd unigolion a grwpiau o ddysgwyr ym meysydd arolygu 1 a 3 (dysgu, ac addysgu a phrofiadau dysgu); a hunanwerthuso ym maes arolygu 5 (arweinyddiaeth a rheolaeth).

## 2 Lles ac agweddau at ddysgu

### 2.1 Lles

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr ar gyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a Saesneg fel ail iaith yn bwriadu dilyn y cwrs yn effeithiol, a chynnal cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu medrau mewn dyfalbarhad a gwydnwch i barhau a chwblhau'r cwrs yn llwyddiannus pan fyddant yn wynebu anawsterau.

Pan fydd partneriaethau'n defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i ddarparu cyrsiau sy'n annog dysgwyr bregus i ddilyn cwrs neu ddychwelyd i ddysgu, neu helpu dysgwyr i ddatblygu hobïau neu gyrsiau iechyd a lles, neu'u bod yn hwyluso parhau â dosbarthiadau â gogwydd cymdeithasol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r cyrsiau'n cyfrannu at gydbwysedd cyffredinol dysgwyr rhwng lles a bywyd gwaith.

Pan fydd partneriaethau'n defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i ddarparu cyrsiau ar gyfer diddordeb a lles personol dysgwyr (er enghraifft dosbarthiadau ieithoedd, coginio, celf neu grefft), dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn elwa ar gymryd rhan (er enghraifft datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, budd rhyngweithio â dysgwyr eraill, datblygu eu dawn greadigol), a sut mae'r dysgu hwn yn cyfrannu at eu bywydau a'u lles ehangach.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a saff, ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn eu bywydau eu hunain ac yn y gweithle.

Dylai arolygwyr ystyried ymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad gan ddysgwyr a staff, yn ofalus o ran lles dysgwyr, a datblygu cwestiynau sy'n dod i'r amlwg, lle bo'n briodol. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth o arsylwadau o ddysgwyr yn rhyngweithio â'u cyfoedion ac â staff, yn ogystal â thystiolaeth o drafodaethau gydag unigolion a grwpiau.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae cyfranogi mewn dysgu yn helpu dysgwyr i ddatblygu'n unigolion hyderus, a byw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, er enghraifft trwy ddilyniant mewn cyflogaeth, cyfrannu at eu cymunedau neu gefnogi eu cyfrifoldebau rhianta neu ofalu.

### 2.2 Agweddau at ddysgu

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau allweddol sydd eu hangen yn eu gwaith a'u bywydau personol. Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae dysgwyr yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, abl ac annibynnol. Dylent edrych ar ba mor dda y mae dysgwyr yn ymgysylltu â phrofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd. Dylent farnu diddordeb dysgwyr yn eu gwaith, eu gallu i ddal ati i ganolbwyntio ac osgoi unrhyw beth sy'n tynnu eu sylw. Dylent ystyried pa mor barod y mae dysgwyr yn ymgysylltu â thasgau ac yn eu cwblhau'n dda ac mewn modd amserol. Dylent werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn dyfalbarhau ac yn aros yn benderfynol pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n

chwilio am atebion eraill pan fydd eu hymagwedd gyntaf at broblem yn aflwyddiannus.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y gall dysgwyr weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn parau a grwpiau bach, neu o bell. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dangos parch at gyfraniadau dysgwyr eraill, er enghraifft trwy ddefnydd priodol o ymddygiad ar-lein, gan alluogi i bobl eraill siarad neu drwy aros yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr ar gyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol a Saesneg fel ail iaith yn dangos dealltwriaeth dda o fedrau cyflogadwyedd, er enghraifft prydlondeb, presenoldeb rheolaidd, ystyried barn pobl eraill a defnyddio ystod o strategaethau i ymestyn eu dysgu. Dylai arolygwyr arsylwi p'un a yw dysgwyr yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd a'u tiwtoriaid.

Wrth werthuso cyfranogiad a mwynhad mewn dysgu, dylai arolygwyr ystyried y dystiolaeth o graffu ar waith dysgwyr (yn cynnwys gwaith wedi'i greu yn ddigidol), cyfweliadau â dysgwyr, arsylwi eu hymgysylltiad â sesiynau, ac mewn trafodaethau, eu lefelau dyhead, cymhelliant a hyder.

Dylai arolygwyr ystyried presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr fel tystiolaeth o gyfranogiad dysgwyr, eu hymgysylltu â dysgu a'u dibynadwyedd, gan gofio lefel yr ymrwymiadau sydd gan ddysgwyr efallai yn eu rolau gofalu neu waith. Byddai arolygwyr yn disgwyl bod dysgwyr wedi cysylltu â'u tiwtoriaid ymlaen llaw a threfnu dal i fyny â'u hastudiaethau, os na allant fynychu.

Dylai arolygwyr adrodd trwy eithriad, h.y. lle mae tuedd glir o bresenoldeb gwan neu gryf iawn.

Dylai arolygwyr ystyried sut mae pandemig COVID-19, ac unrhyw darfu ar ddysgu a achoswyd gan y pandemig, wedi effeithio ar les a chyfranogiad dysgwyr, a'u hymgysylltu â dysgu.

## 3 Addysgu a phrofiadau dysgu

### 3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y ddarpariaeth

Dylai arolygwyr ystyried ymagwedd strategol y bartneriaeth at gynllunio'r ddarpariaeth a'r graddau y mae'n diwallu anghenion ei chymuned, yn cynnwys ystod ac ehangder y ddarpariaeth, lleoliad daearyddol ac amseriad y ddarpariaeth, a'r cyfle i fanteisio ar y ddarpariaeth o bell, os yw'n briodol.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae'r profiadau dysgu yn ysgogi ac yn herio dysgwyr er mwyn iddynt ymgysylltu'n llawn â'u dysgu a gwneud y cynnydd gorau posibl.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Dylai arolygwyr ystyried y ffyrdd y mae'r bartneriaeth yn datblygu rhaglen o weithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig

Cymru ac yn helpu dysgwyr i ddeall am gyfleoedd cymunedol a chyflogaeth yng Nghymru.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn helpu neu'n cyfeirio dysgwyr at sefydliadau priodol sy'n gallu eu helpu i ysgrifennu cais am swydd yn amlygu eu medrau a'u gwybodaeth, paratoi ar gyfer cyfweliad a chreu curriculum vitae.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r bartneriaeth yn trefnu bod cyfleoedd dysgu ychwanegol ar gael. Gall y rhain fod ar ffurf dosbarthiadau lles, neu gyrsiau uwch y gall dysgwyr ddatblygu eu medrau trwyddynt i lefel uwch trwy ymgymryd â gweithgareddau sy'n defnyddio'r medrau y maent wedi'u dysgu. Gallai enghreifftiau o'r rhain gynnwys ioga, ysgrifennu creadigol, sut i fod yn drysorydd ar gyfer clwb, sut i drefnu digwyddiad cymdeithasol, ymweliadau addysgol, cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau galwedigaethol, ennill cymwysterau ychwanegol ac arwain neu gymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol a chodi arian.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r bartneriaeth yn hwyluso clybiau neu grwpiau gwirfoddol i drefnu eu dysgu a'u darpariaeth eu hunain; neu'n cynnig darpariaeth adfer costau y tu hwnt i gwmpas cyllid Llywodraeth Cymru.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn addas i ddysgwyr gaffael y medrau angenrheidiol mewn llythrennedd (Cymraeg / Saesneg), medrau rhifedd a medrau digidol i gefnogi eu gwaith, eu datblygiad personol ac academaidd. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth wedi ystyried cyfleoedd cyflogaeth a chymunedol ac wedi creu cysylltiadau â chyflogwyr lleol a sefydliadau cymunedol yn yr ardal leol a'r rhanbarth i ddarparu rhaglenni wedi'u seilio ar senarios bywyd go iawn ar gyfer dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso graddau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg o'u mannau cychwyn. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog. Dylai arolygwyr roi sylwadau ar y trefniadau sydd gan bartneriaethau i gefnogi datblygiad medrau Cymraeg dysgwyr.

Ni ddylai'r prif werthusiadau, y cyd-destun a'r crynodeb adrodd yn uniongyrchol bod y darparwr wedi ennill unrhyw wobrau a enwir, yn cynnwys y rhai a ariennir yn gyhoeddus. Fodd bynnag, gellir cyfeirio at y gwobrau a enwir yn sail y dystiolaeth, yn enwedig ble mae'r wobr wedi cael effaith ar wella safonau neu ddarpariaeth.

### 3.2 Ansawdd yr addysgu, hyfforddi ac asesu

Wrth werthuso addysgu, dylai arolygwyr nodi nad oes unrhyw fethodoleg sy'n cael ei ffafrio na thempled penodedig y dylai tiwtoriaid ei ddilyn, a gall tiwtoriaid ddefnyddio ystod o wahanol ddulliau dros gyfnod. Yr ystyriaeth allweddol yw p'un a yw'r addysgu yn llwyddo i ennyn diddordeb dysgwyr, a pha mor dda y mae'n datblygu eu dealltwriaeth, medrau, gwybodaeth a chymhwysedd wrth iddynt symud trwy eu rhaglen.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o'r holl ddysgwyr. Dylent ystyried ansawdd cynllunio tymor byr, tymor canolig a thymor hir a pha mor dda y mae eu cynllunio yn diwallu anghenion y fframwaith cymwysterau.

Dylent ystyried y graddau y mae gan diwtoriaid amcanion clir ar gyfer dysgu'r dysgwyr, a pha mor effeithiol y defnyddiant amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau i ennyn diddordeb dysgwyr a'u herio i gyflawni cystal ag y gallant. Dylent ystyried y graddau y maent yn gwneud eu dosbarthiadau, yn cynnwys cyflwyno ar-lein, yn ysgogol a difyr fel bod yr holl ddysgwyr, yn cynnwys y rhai mwyaf abl a lleiaf abl, yn gallu dysgu'n gynhyrchiol.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae tiwtoriaid yn defnyddio technegau holi a gweithgareddau datrys problemau i gymell atebion dysgwyr a'u datblygu ymhellach, a chael amcan o'u dealltwriaeth. Dylent ystyried eglurder cyfarwyddiadau ac esboniadau a barnu pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu o ganlyniad. Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddatblygu hyder i ddefnyddio'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau er eu mantais mewn unrhyw waith neu fenter gymunedol y maent yn ymgymryd ag ef / â hi.

Dylent werthuso pa mor dda y mae'r tiwtoriaid yn rheoli cyfranogiad dysgwyr mewn dosbarthiadau, yn cynnwys y rhai a gyflwynir ar-lein, i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i gymryd rhan yn llawn ac na chaniateir i unrhyw ddysgwr penodol ddominyddu mewn trafodaeth mewn sesiwn neu dynnu 'nôl o'r drafodaeth. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid yn gwneud eu sesiynau'n lleoedd ysgogol a difyr y gall dysgwyr ddysgu'n gynhyrchiol ynddynt. Dylai arolygwyr farnu pa mor llwyddiannus y mae staff technegol a staff cymorth yn cefnogi dysgu.

Mae'r ffocws ar asesu yn y maes arolygu hwn ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a Saesneg fel ail iaith, ac mewn dosbarthiadau eraill, y graddau y mae dysgwyr yn datblygu yn y maes pwnc hwnnw. Dylai arolygwyr werthuso'r adborth llafar ac ysgrifenedig gan diwtoriaid i helpu dysgwyr wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i asesu eu perfformiad eu hunain.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae arweinwyr a thiwtoriaid yn monitro, yn olrhain ac yn diweddaru cofnodion o gynnydd pob dysgwr, ac yn adrodd ar y rhain yn glir. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Dylai arolygwyr werthuso p'un a yw dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cael eu cynnwys mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain.

Wrth lunio gwerthusiadau ar addysgu, hyfforddi ac asesu, dylai arolygwyr ddefnyddio ystod lawn y dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn debygol o gynnwys tystiolaeth o bortffolios dysgwyr (yn cynnwys y rhai sy'n cael eu cwblhau ar-lein), cynlluniau dysgu, cofnodion asesu, a gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, arsylwadau sesiynau, a thrafodaethau gyda dysgwyr. Ni ddylai arolygwyr ddyrannu barn i sesiwn, tiwtor nac asesydd unigol, ond dylai adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau yn ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws y bartneriaeth.

## 4 Gofal, cymorth ac arweiniad

### 4.1 Datblygiad personol

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd arweiniad a chyngor diduedd a ddarperir i ddysgwyr cyn dechrau eu cwrs.

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol ac arbenigol i ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys argaeledd gwasanaethau asiantaethau arbenigol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu, yn cynnwys cyfrifoldebau personol, ariannol, domestig, cludiant, iechyd a gofal teuluol.

Dylai arolygwyr werthuso trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer hyrwyddo dewisiadau iach am ffordd o fyw, er enghraifft o ran bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein, problemau iechyd meddwl a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Dylai arolygwyr ystyried yr arweiniad a'r cymorth arall a ddarperir i ddiogelu lles dysgwyr a hyrwyddo eu datblygiad personol.

Dylai arolygwyr edrych ar ba mor dda y mae'r bartneriaeth yn helpu dysgwyr i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu goddefgarwch a pharch. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o aflonyddwch, gwahaniaethu ac eithafiaeth. Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn ymateb i unrhyw achosion yn ymwneud â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu, ac yn eu rheoli. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r bartneriaeth yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae dysgwyr, yn cynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn gwneud eu rhan yn eu gweithleoedd a'r gymuned ehangach.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth:

- yn trefnu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol pob un o'r dysgwyr er mwyn iddynt allu mwynhau eu dysgu ac elwa ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig
- yn darparu cymorth tra ystyriol ar gyfer iechyd a lles corfforol a meddyliol dysgwyr, er enghraifft o ran pandemig COVID-19
- yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach
- yn olrhain ac yn monitro cynnydd a lles dysgwyr, yn cynnwys presenoldeb ac ymddygiad
- yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried cynnydd grwpiau penodol, er enghraifft y dysgwyr hynny y gallai eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i dangyflawni neu'r rhai sy'n fwy abl
- yn nodi materion perthnasol, ac yn ymateb yn briodol i ddeilliannau olrhain a monitro, er enghraifft trwy ddarparu cymorth a her briodol, defnyddio strategaethau ymyrraeth, mentora neu hyfforddi unigolion neu grwpiau
- yn defnyddio partneriaethau gydag eraill i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr

### 4.2 Diogelu

Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nad ydynt yn destun pryder. Pan fydd trefniadau'n destun pryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad yn yr adroddiad, a bydd Estyn yn anfon llythyr lles at y bartneriaeth yn gofyn iddynt amlinellu sut byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion).

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae trefniadau diogelu'r bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu diogelu p'un a ydynt ar y safle, oddi ar y safle neu ar-lein. Dylai trefniadau gynnwys nodi dysgwyr o dan 18 oed, ac oedolion bregus, sydd mewn angen neu mewn perygl o niwed sylweddol, arferion recriwtio diogel a chael trefniadau priodol ar gyfer diogelu atgyfeiriadau. Cyn yr arolygiad, bydd y cydlynydd arolygu yn gofyn i enwebeion y bartneriaeth nodi unrhyw grwpiau sy'n cynnwys dysgwyr o dan 18 mlwydd oed. Os bydd y grwpiau hyn yn cael eu cynnwys mewn sampl ar gyfer arsylwi, bydd yr arolygydd cofnodol yn dyrannu AEM i arsylwi gan y bydd yr AEM wedi cael gwiriad manylach gan y GDG.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gofynion a chanllawiau statudol penodol am y materion diogelu hyn, a dylai fod gan bartneriaethau bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â nhw.

Bydd arolygwyr yn edrych ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer atal a mynd i'r afael â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu. Dylent ystyried sut mae'r bartneriaeth yn cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes gan y bartneriaeth weithdrefnau cadarn ar gyfer gwirio addasrwydd staff a phobl eraill sy'n dod i gysylltiad â dysgwyr, a bod y bartneriaeth yn cynnal cofnod o'r gwiriadau hyn. Dylai arolygwyr wirio bod pob un o'r staff yn gwybod beth i'w wneud i ymateb i faterion diogelu a bod y swyddog arweiniol dynodedig ac aelodau staff eraill wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol, lle bo'n briodol.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio'i gwybodaeth am faterion diogelu ar draws ei holl bartneriaid, a pha mor dda y defnyddir prosesau adrodd i sicrhau ansawdd diogelu gan uwch arweinwyr.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

### 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae arweinyddiaeth y bartneriaeth wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir a nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol ar gyfer y bartneriaeth. Dylent werthuso pa mor effeithiol y mae pob partner yn cyfrannu at y bartneriaeth a'r graddau y mae partneriaid yn cydweithio i ddiwallu anghenion eu cymuned a'u dysgwyr.

Dylai arolygwyr fyfyrio ar ba mor dda y mae'r arweinyddiaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, dysgwyr a nhw eu hunain. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn datblygu staff effeithiol ac ymgysylltiol. Dylent ystyried i ba raddau y

mae arweinwyr yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gydweithio effeithiol rhwng staff ar draws y bartneriaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau, a pha mor dda y maent yn cydweithio i ysgogi blaenoriaethau strategol ar gyfer y bartneriaeth, ac ar gyfer gwella.

Dylai arolygwyr ystyried ystod eang o dystiolaeth wrth werthuso ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth: er enghraifft, cofnodion o ystod o gyfarfodydd diweddar, cyfweliadau â staff, cynlluniau gweithredu gwelliant ac adroddiadau ar eu gweithredu, adroddiadau hunanasesu gan arweinwyr a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad dysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy a pha mor dda y maent yn gwneud penderfyniadau ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr, uniongyrchol ac anghenion tymor hir dysgwyr, eu cymuned a Chymru.

Dylai edrych ar y graddau y mae arweinyddiaeth y bartneriaeth yn cynnal ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan ar y ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf, a pha mor gyflym y maent yn ysgogi unrhyw gamau adferol sydd eu hangen.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae arweinwyr yn benderfynol a llwyddiannus wrth fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff ar draws y bartneriaeth ac yn cydweithio â phartneriaethau addysg eraill a phartneriaid eraill o fewn y sector i gyflawni gwelliannau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Dylai arolygwyr ganolbwyntio ar ba mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio cynghreiriau a chydweithio strategol gydag asiantaethau eraill i helpu meithrin ei gallu ar gyfer gwelliant parhaus, a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae llywodraethwyr, neu aelodau o fyrddau goruchwylio (lle bo'n berthnasol) yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dylent ystyried pa mor dda y maent yn gwybod beth yw cryfderau'r bartneriaeth a'i meysydd i'w datblygu, a'r graddau y maent wedi cymryd rhan mewn gosod blaenoriaethau strategol y bartneriaeth. Dylent ystyried a oes cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y mae'n dwyn uwch arweinwyr i gyfrif.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae penderfyniadau gwariant, rheoli contractau a chynllunio ariannol eang y bartneriaeth yn cysylltu'n briodol â'i blaenoriaethau strategol, a'i chynllunio gwelliant. O ran penderfyniadau gwariant, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir dysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae arweinwyr yn gwybod beth yw costau rhaglenni a gweithgareddau dysgu presennol, ac adolygu pa mor gost effeithiol ydynt. Dylai arolygwyr ystyried maint unrhyw warged neu ddiffyg o gymharu â chyllideb y bartneriaeth. Dylent ystyried p'un a oes tuedd gyson o wario sydd gryn dipyn uwchlaw neu islaw'r gyllideb ddirprwyedig flynyddol, ac archwilio'r rhesymau am hyn, lle mae'n digwydd.

Dylai arolygwyr ystyried p’un a yw’r lefel staffio a’r adnoddau dysgu yn briodol i gyflwyno’r ddarpariaeth gynlluniedig yn effeithiol. Dylent ystyried pa mor dda y mae’r bartneriaeth yn hyrwyddo lles a llesiant ei staff.

Dylai arolygwyr ystyried p’un a yw’r bartneriaeth yn defnyddio’i safle a’i seilwaith TG yn effeithiol ac yn effeithlon, a’r graddau y mae’r rhain yn cefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Dylai arolygwyr ystyried p’un a gaiff dysgwyr gyfle da i gymryd rhan mewn ystod lawn o weithgareddau dysgu ac asesu sy’n briodol i’w hanghenion.

Dylai arolygwyr ystyried y flaenoriaeth y mae arweinwyr ar draws y bartneriaeth wedi’i rhoi i sicrhau bod pob un o’r staff yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu’r bartneriaeth.

### 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Dylai arolygwyr werthuso pa mor gywir y mae arweinwyr ar draws y bartneriaeth yn gwybod beth yw cryfderau a gwendidau’r bartneriaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau’r ddarpariaeth, yn cynnwys addysgu ac asesu. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae’r bartneriaeth yn adolygu ei darpariaeth i ymateb i adborth ac ymgynghori â’i rhanddeiliaid fel dysgwyr, cyflogwyr lleol a rhanbarthol neu grwpiau cymunedol.

Dylai arolygwyr ystyried effaith cynllunio gwelliant a pha mor dda y mae blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella yn cysylltu â chanlyniadau hunanwerthuso’r bartneriaeth. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod blaenoriaethau’n cael eu cefnogi gan ddyrannu adnoddau. Dylent werthuso pa mor dda y mae arweinwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella mewn graddfeydd amser penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb am eu cyflawni.

Dylai arolygwyr ystyried hanes y bartneriaeth o ran gwneud gwelliannau a’r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles dysgwyr, er enghraifft trwy welliannau i ansawdd yr addysgu a chyrchfannau eu dysgwyr. Lle bo’n briodol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae’r bartneriaeth wedi ymateb i argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn neu gan bartneriaid strategol, a ph’un a yw camau gweithredu’r bartneriaeth wedi arwain at welliannau.

### 5.3 Dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr ar draws y bartneriaeth wedi creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol pob aelod o staff, yn cynnwys y trefniadau i gefnogi ymgysylltiad gweithredol pob un o’r staff o ran cynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau proffesiynol. Dylent ystyried y graddau y mae staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, arfarnu a rheoli perfformiad.

Dylai arolygwyr werthuso effaith arweinwyr yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn helpu staff i wella eu harfer. Hefyd, dylent farnu p’un a yw arweinwyr yn mynd i’r afael â materion tanberfformio yn gadarn ac yn uniongyrchol ble mae angen.

Dylent ystyried y dysgu proffesiynol y mae staff yn ymgymryd ag ef, a’i effaith ar gynnydd a lles dysgwyr, a’u harfer eu hunain. Dylent archwilio’r graddau y mae staff wedi rhannu canlyniadau datblygiad proffesiynol gydag aelodau staff eraill. Dylent

edrych ar ba mor dda y mae uwch arweinwyr wedi nodi arfer dda ar draws y bartneriaeth, ac wedi sicrhau y gallai aelodau staff eraill elwa ar hyn.